

Aelwyd yr Urdd Aberystwyth

Sampler dathlu 25 mlynedd 1933-1958

Cynlluniwyd gan Huw Cedwyn Jones (aelod o staff yr Urdd oedd â gofal am yr adeiladau)

Cafodd ei arddangos ar y wal yn Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn tan 2001 pan gaewyd yr adeilad a'i werthu.

Mae llofnodion rhai oedd yn gysylltiedig â Mudiad yr Urdd, Aelwyd yr Urdd a bywyd cyhoeddus tref Aberystwyth i'w gweld ar y sampler. (oedolion a phlant)

e.e. J.Hywel Jones - pennaeth Yr Ysgol Gymraeg ar y pryd

Nansi Lewis a Mary Vaughan Jones - athrawon yn yr Ysgol Gymraeg

(Marian Jones = Marian Delyth y ffotograffydd)

Ym mis Tachwedd 2013 bu Cymdeithas yr Aelwyd yn dathlu 80 mlynedd ers sefydlu'r Aelwyd. Ers 2001 bu'r gymdeithas yn cyfarfod yn Festri Seion Stryd y Popty. Oherwydd y cysylltiad cynnar rhwng Yr Ysgol Gymraeg ag adeilad yr Urdd cytunodd yr aelodau gyflwyno'r sampler i'r Ysgol Gymraeg gan na ellid meddwl am well cartref ar ei gyfer.